

# Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru

Atodiad A

Crynodeb o'r Dogfennau Polisi a Chynllunio  
Allweddol



# Atodiad A – Crynodeb o'r Dogfennau Polisi a Chynllunio Allweddol Polisiau a Chynlluniau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

**Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru**, a gyhoeddwyd yn 2008, sy'n amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau trafndiaeth. Y nod yw '*hyrwyddo rhwydweithiau trafndiaeth cynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd ac sy'n cryfhau bywyd economaidd a chymdeithasol ein gwlad*'. Mae pum blaenoriaeth strategol Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effeithiau amgylcheddol eraill;
- Integreiddio trafndiaeth leol;
- Gwella mynediad rhwng prif aneddiadau a safleoedd;
- Gwella cysylltedd rhyngwladol; a
- Chynyddu diogelwch a sicrwydd

Defnyddir tair thema trafndiaeth gynaliadwy, sy'n gweithredu fel sail i'r strategaeth, wrth ystyried polisiau trafndiaeth a nifer o ddeiliannau dymunol hirdymor (Gweler Tabl A.1). Defnyddiwyd y deiliannau hirdymor hyn wrth ystyrier deiliannau priodol ar gyfer CTLI Canolbarth Cymru.

**Tabl A.1: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Deiliannau Hirdymor**

Cymdeithasol	Economaidd	Amgylcheddol
Gwella mynediad at ofal iechyd	Gwella'r cysylltiadau yng Nghymru ac yn rhyngwladol	Defnyddio mwy ar ddeunyddiau cynaliadwy yn asedau ac isadeiledd trafndiaeth ein gwlad
Gwella mynediad at addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes	Sicrhau ei bod yn haws i bobl symud o le i le mewn ffordd fwy effeithlon, dibynadwy a chynaliadwy	Lleihau cyfraniad trafndiaeth at allyriadau nwyon tŷ gwydr
Gwella mynediad at gyfleusterau siopa a hamdden	Sicrhau bod nwyddau'n cael eu symud mewn ffordd fwy effeithlon, dibynadwy a chynaliadwy	Addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
Annog ffordd iach o fyw	Gwella mynediad at atyniadau i ymwelwyr	Lleihau cyfraniad trafndiaeth at lygru'r aer ac allyriadau niweidiol eraill
Gwneud teithio'n fwy diogel – mewn gwirionedd ac o ran canfyddiad pobl		Gwella effaith gadarnhaol trafndiaeth ar ein amgylchedd lleol
Gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth		Gwella effaith trafndiaeth ar ein treftadaeth
		Gwella effaith trafndiaeth ar fioamrywiaeth

Roedd **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru, 2010** yn sefydlu'r ymyraethau i gryfhau'r gwaith o ddatblygu system drafnidiaeth gynaliadwy ac i gyfrannu at nod hirdymor Llywodraeth Cymru o gael system drafnidiaeth sydd wedi'i datgarboneiddio yng Nghymru. Cyhoeddwyd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ym mis Mawrth 2010 a chyhoeddwyd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol â blaenoriaeth yn 2011 i amlinellu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru hyd at 2015 a thu hwnt. Mae prif ymrwymiadau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i rhanbarth Canolbarth Cymru wedi'u cynnwys yn Nhabl A.2.

**Tabl A.2: Ymrwymiadau â Blaenoriaeth yng Nghanolbarth Cymru**

<b>Ymrwymiadau â Blaenoriaeth Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaetholun</b>
<b>Gweithio ar hyn o 2012-2015</b>
Sicrhau bod £5m ar gael dros 3 blynedd i wneud y mwyaf o'n buddsoddiad mewn Canolfannau Teithio Cynaliadwy (Cyfeiriad 1 CTC)
A470 yn Gelligemlyn (Cyfeiriad 60 CTC)
A470 o Maes yr Helmau i Cross Foxes (Cyfeiriad 61 CTC)
A483 yn y Drenewydd (Cyfeiriad 70 CTC)
Gwasanaethau pob awr yn ystod y dydd rhwng Aberystwyth a'r Amwythig (Cyfeiriad 96 CTC)
<b>Tu hwnt i 2015</b>
A470 yn Alltmawr (Cyfeiriad 62 CTC)
A470 yn Rhaeadr (Cyfeiriad 66 CTC)
Ail werthuso'r achos busnes ar gyfer cyflwyno gwasanaethau ychwanegol i Galon Cymru (Cyfeiriad 97 CTC)
Cyflawni ymyraethau a adnabuwyd ar gyfer yr A458 o Buttington Cross i Wollaston Cross (gweithio gyda DfT) (Cyfeiriad 98 CTC)
Gweithio ar y mesurau trafndiaeth integredig i ymdrin â'r A470 a'r A483 trwy Llanfair ym Muallt dechrau cynllunio'r ymyraeth hirdymor (tu hwnt i 2015) (Cyfeiriad 68 CTC).

**Y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, 2015** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r CTC Drafft ym mis Rhagfyr 2014. Er bod y CTLI yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn ceisio cefnogi'r rhaglenni buddsoddi sydd ar y gweill, fe'i paratowyd cyn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Terfynol, ond roedd y Drafft ar gael cyn cwblhau'r CTLI terfynol, serch hynny. Mae'r Drafft CTC yn tanlinellu bod "y Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol yn adnabod y blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth ar lefel lleol er mwyn cefnogi deilliannau a geir yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ac fe'u datblygir yn unol â chanllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru."<sup>1</sup> Mae'r CTC Drafft yn nodi'r blaenoriaethau allweddol a ganlyn ar gyfer y Cynllun<sup>1</sup>, sy'n debyg i'r blaenoriaethau buddsoddi sydd wedi'u hadnabod yn y canllawiau CTLI:

- Twf economaidd: cefnogi twf economaidd a diogelu swyddi gan ganolbwyntio'n benodol ar Ranbarthau'r Dinasoedd, Parthau Menter a pharthau twf lleol;
- Mynediad i gyflogaeth: lleihau anweithgarwch economaidd drwy ddarparu mynediad diogel a fforddiadwy i gyflogaeth;

<sup>1</sup>fn

- Trechu tlodi: uchafu cyfraniad posib gwasanaethau trafndiaeth effeithiol a fforddiadwy at drechu tlodi a thargedu buddsoddiad i gefnogi gwelliannau i hygyrchedd yn ein cymunedau sydd dan fwyaf o anfantais;
- Teithio cynaliadwy a diogelwch: annog teithio sy'n fwy diogel, yn fwy iach ac yn gynaliadwy; a
- Mynediad at wasanaethau: cysylltu cymunedau a galluogi mynediad at wasanaethau allweddol.

Mae **Adroddiad Gwerthusiad Interim Llywodraeth Cymru ar y Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol a Rhanbarthol** (Mai 2014)<sup>4</sup> yn rhoi arfarniad canol tymor ar ôl gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer 2010-2015. Mae'r adroddiad yn tanlinellu'r gwelliannau trafndiaeth gan gynnwys gwelliannau i orsaf rheilffordd Aberystwyth fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol i Wella Gorsafoedd.

Daeth **Adroddiad y Grŵp Cyngori ar Bolisi Bysiau, Mehefin 2014**, o'r grŵp sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y diwydiant bysus a grwpiau defnyddwyr. Mae'r adroddiad yn rhoi argymhellion i Llywodraeth Cymru, ac mae'r prif gynigion fel a ganlyn:

- Dylid sicrhau **sefydlogrwydd** drwy wneud yn siŵr bod trefniadau ariannu a llywodraethu yn para am dair blynedd o leiaf
- Dylid **sefydlu dull gyson, sy'n cael ei defnyddio ledled Cymru**, o fynd i'r afael â pholisïau, safonau a materion trawsbynciol.
- Dylid **sefydlu partneriaethau rhwydweithio** sy'n cynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau bysus, defnyddwyr bysus a'r rhai hynny sy'n galw am deithiau (e.e. mân-werthwyr, darparwyr gofal iechyd) i edrych eto ar wasanaethau, a'u datblygu (o fewn rheolau cystadleuaeth). Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar goridorau trafndiaeth a'u bod yn canolbwyntio ar gamau ymarferol i wella gwasanaethau, gan gynnwys seilwaith, marchnata a gwelliannau i'r rhwydwaith
- Dylid sicrhau bod **cyllid dechrau busnes** ar gael i roi cymorth tymor byr ar gyfer cyfnodau treialu gwasanaethau masnachol newydd, mentrau prisiau newydd a mentrau eraill. Dylid sicrhau bod cwmnïau bysus yn gallu cael gafael ar gymorth i ddatblygu busnes ar gyfer buddsoddiadau masnachol eraill.
- Ystyried yn llawn bwysigrwydd gwasanaethau bws dibynadwy wrth **fuddsoddi mewn gwelliannau seilwaith** a ffyrdd.
- Dylid datblygu menter **Prisiau Teg** gyda **thocyn Cymru Gyfan** a phrosiectau eraill sy'n gysylltiedig â phrisiau.
- Dylid sefydlu **tasglu gwybodaeth** i gael ffyrdd newydd ymarferol o wella'r dull o ddarparu gwybodaeth, gan gynnwys defnyddio technoleg ddigidol.
- Sefydlu **Safon Bysus Cymru**, gan adeiladu ar yr hyn a ddatblygwyd yn y de-ddwyrain. Dylid rhoi cymhellion i gwmnïau a'u gwobrwyo am gydymffurfio drwy daliadau grant. Ni ddylai'r cwmnïau sydd heb gyrraedd lleiafswm dderbyn arian cyhoeddus.
- Dylid annog trafndiaeth sy'n gysylltiedig â iechyd ac addysgu i **gydlynu** â gwasanaethau masnachol a gwasanaethau â chymhorthdal, gan gynnwys dau brosiect peilot i adnabod arfer dda
- Dylai gweithgor edrych eto ar ddatblygu **polisi prisiau gostyngol i bobl ifanc**, gan gynnwys adolygu'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc ac asesu cynlluniau gostyngol sy'n bodoli ar gyfer pobl ifanc ar hyn o bryd.
- Dylid cyflwyno cynllun fel y **waled oren** a modiwl yng Nghymru ar gyfer **Tystysgrif Cymhwysedd i Yrwyrr** i wella gwasanaethau i bobl anabl.

Sefydlwyd y **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymru ar Gludo Nwyddau** yn dilyn datganiad Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar gludo nwyddau ym mis Gorffennaf 2013. Cyflwynodd y Grŵp ei adroddiad ym mis Mawrth 2014. Cylch gorchwyl y Grŵp oedd cynghori'r Gweinidog ar y prif faterion wrth gludo nwyddau a hynny o safbwynt blaenoriaethau datblygiad economaidd y Gweinidog. Mae'r adroddiad yn

cynhyrchu 24 argymhelliad, gan gynnwys yr hyn a ganlyn, sy'n berthnasol i ddatblygiad y CTLI, ac yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod yr angen i roi ystyriaeth i rôl cludo nwyddau wrth ystyried pob datblygiad sylweddol yng Nghymru yn cael ei integreiddio i'r system gynllunio yng Nghymru mewn modd mwy effeithiol.
- Sicrhau bod yr angen i roi ystyriaeth i'r posibilrwydd o gael rhwydweithiau cludo nwyddau rhyngfoddol effeithiol wrth ddatblygu cynlluniau defnydd tir, yn ogystal â'r prosesau ychwanegu gwerth y gall cyfnewidfeydd rhyngfoddol eu denu, yn cael ei integreiddio i'r system gynllunio yng Nghymru mewn modd mwy effeithiol.
- Cysylltu gyda'r *Freight Transport Association* a'r *Road Haulage Association* er mwyn adolygu'r dystiolaeth ar yr angen am fwy o safleoedd tryciau penodol, a'i fod, yn ddibynnol ar y canlyniad, yn ystyried yr angen i ymyrryd.
- Rhoi ystyriaeth bellach i rôl arian grant cyhoeddus wrth gefnogi newidiadau moddol o ffyrdd i reilffyrdd yng Nghymru a'r buddion amgylcheddol a chymdeithasol i Gymru yn benodol.

Mae **Fframwaith Diogelwch Ffyrdd yng Nghymru (2013)** yn amlinellu agwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddiogelwch ffyrdd hyd at 2020 a'r ymrwymiad i wella diogelwch ffyrdd a lleihau nifer y bobl a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cael "*Gostyngiad parhaus yn nifer y bobl a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru, gyda'r prif nod o beidio â chael unrhyw farwolaethau*".

O gymharu â'r cyfartaleddau ar gyfer 2004-2008, y targedau yw:

- Lleihau nifer y bobl a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru 40% erbyn 2020, gan olygu y caiff 562 yn llai eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol;
- Lleihau nifer y beicwyr modur a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru 25% erbyn 2020, gan olygu y caiff 64 yn llai eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol;
- Lleihau nifer y bobl ifanc (16-24 oed) a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru 40% erbyn 2020, gan olygu y caiff 139 yn llai eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol;

Mae'r strategaeth yn targedu grwpiau o ddefnyddwyr y ffyrdd sy'n wynebu'r risg mwyaf a grwpiau bregus ac yn datgan y dylid cyflawni ymyraethau diogelwch ffyrdd i leihau nifer y gwrthdrawiadau y maent yn rhan ohonynt.

Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Gynllun Gweithredu ar Gerdded a Beicio yng Nghymru**. Nod y cynllun gweithredu yw '*annog mwy o bobl i gerdded a beicio yn amlach ac yn fwy diogel*'. Roedd y cynllun gweithredu yn dwyn ynghyd yr holl gynlluniau allweddol y mae Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid allweddol yn eu cyflawni i gefnogi cerdded a beicio yng Nghymru.

Amcanion craidd y cynllun gweithredu yw:

- Gwella iechyd a lles y boblogaeth drwy gynyddu gweithgarwch corfforol;
- Gwella'r amgylchedd lleol i gerddwyr a beicwyr;
- Annog teithio cynaliadwy fel cam ymarferol i frwydro yn erbyn newid hinsawdd;
- Cynyddu lefelau cerdded a beicio drwy hyrwyddo cyfleusterau;
- Sicrhau bod cerdded a beicio yn derbyn blaenoriaeth mewn cyllid, cyfarwyddyd a pholisïau trawsbynciol.

Mae pedair thema yn ffurfio sail i'r cynllun gweithredu er mwyn cefnogi darparu'r amcanion hyn, ac mae'r hyn a ganlyn yn berthnasol i'r CTLI yn benodol:

- **Newid Ymddygiad** – Cerdded a beicio i wneud mwy o gyfraniad tuag at dargedau newid hinsawdd a chodi lefelau gweithgarwch corfforol;
- **Annog Teithio Cynaliadwy drwy gael gwell Seilwaith ar gyfer Cerdded a Beicio** – Creu isadeiledd diogel, deniadol a chyfleus ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- **Amcanion Polisiâu** – Sicrhau y caiff cerdded a beicio eu cynnwys mewn cyllid, cyfarwyddyd a pholisiâu trawsbynciol.
- **Gwerthuso** – Galluogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni i gadw golwg ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu'r Cynllun hwn a'r canlyniadau a ddisgwylir.

Mae strategaeth **Creu Cymru Egniol (2011)** Llywodraeth Cymru yn anelu i wella iechyd drwy weithgarwch a'r weledigaeth yw creu “*Cymru egniol, iach, gynhwysol, lle mae chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egniol yn rhoi llwyfan cyffredin ar gyfer cymryd rhan, cael hwyl a llwyddo, sy'n clymu ynghyd gymunedau a'r genedl, a lle mae amgylchedd eithriadol Cymru yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy i wella ein hyder ynom ein hunai'n a'n lle yn y byd.*”

Mae **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- Mapiau cymeradwy sy'n dangos y llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau perthnasol;
- Mapiau rhwydwaith integredig cymeradwy o'r llwybrau teithio llesol newydd a'r chyfleusterau perthnasol sydd eu hangen i greu rhwydwaith integredig o lwybrau teithio llesol a chyfleusterau perthnasol;
- Disgwyl i awdurdodau lleol ystyried mapiau rhwydwaith integredig wrth baratoi polisiâu trafndiaeth ac i wneud gwelliannau parhaus i amrediad ac ansawdd llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig.
- Disgwyl i Weinidogion Cymru a'r awdurdodau lleol ystyried pa mor ddymunol yw gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer cerdded a beicio wrth iddynt adeiladu a gwella priffyrdd.

Cyhoeddwyd yr Arweiniad Statudol ar gyfer Cyflawni Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ym mis Mai 2014. Wrth ddatblygu'r mapiau gofynnol hyn, bydd y CTLI, ymysg cynlluniau eraill, “*yn helpu i ddarparu peth o'r cyd-destun a'r wybodaeth gefnogol ar gyfer datblygu'r mapiau. Gellir hefyd defnyddio'r mapiau i ddatblygu'r meysydd polisi hyn oherwydd y gall gwell seilwaith teithio llesol helpu i gyfrannu at y deilliannau y chwilir amdanynt. Dan Adran 6 y Ddeddf, bydd gofyn i awdurdodau lleol i roi sylw i'r mapiau integredig wrth ddatblygu eu polisiâu trafndiaeth a'u cynlluniau cyflawni...*” Dywed “Arweiniad i Awdurdodau Trafndiaeth Lleol – Cynllun Trafndiaeth Lleol 2015” Llywodraeth Cymru y bydd y mapiau hyn ar gael o 2017 er ystyriaeth.

## Dogfennau Eraill Allweddol Llywodraeth Cymru

Mae'r cyd-destun ehangach o ran cynllunio ar gyfer yr economi, cymunedau a'r amgylchedd wedi'i amlinellu mewn ystod o ddogfennau.

Cynhyrchwyd **Cynllun Gofodol Cymru** (y cyfeirir ato fel y WSP) yn 2008 fel fframwaith gofodol lefel uchel Llywodraeth Cymru (LIC) i Gymru. Mae'r WSP yn mynd tu hwnt i gynllunio tir traddodiadol ac yn gosod dull strategol er mwyn arwain datblygiad a blaenoriaethau buddsoddi eang yn y dyfodol. Mae'r WSP yn gosod gweledigaeth ar gyfer sut y dylai pob rhan o Gymru ddatblygu'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae'r WSP yn adnabod chwe isranbarth yng Nghymru heb ffiniau pendant diffiniedig, sy'n adlewyrchu'r cysylltiadau gwahanol sy'n rhan o weithgareddau bob dydd. Mae Ardal Cynllun Gofodol Canol Cymru yn fwy nag ardal CTLI Canolbarth Cymru. Mae gweledigaeth Canol Cymru yn nodi **'safon byw a gweithio uchel mewn aneddiadau llai eu maint mewn amgylchedd gwych, gan ddarparu modelau deinamig o**

**ddatblygu gwledig cynaliadwy, a symud pob sector at weithgareddau sy'n cynnig gwerth ychwanegol'.**


Mae gofyn gweithredu ar y cyd er mwyn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer Canol Cymru, ac mae'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y maes sy'n berthnasol i drafnidiaeth fel a ganlyn, yn gwyno:

- Adeiladu ar y canolfannau allweddol pwysig yn yr ardal, gan wella cysylltiadau a lledaenu buddion a thwf i'r ardaloedd cefn gwlad ehangach a'r cymunedau gwledig sydd y tu draw i'r ardaloedd agos hynny;
- Ehangu hygyrchedd mewnol ac allanol cymaint ag sy'n bosib (yn cynnwys gwella cysylltiadau band llydan a thelegyfathrebu), adeiladu ar gydweithio effeithiol trawsffiniol yng Nghymru a chyda rhanbarthau cyfagos o Loegr ac Iwerddon, cynyddu mynediad at ystod eang o wasanaethau o safon a chyfoethogi twf economaidd cyffredinol yr ardal, ac ehangu cyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r Cynllun Gofodol yn adnabod dau brif fater o ran rhwydweithiau trafnidiaeth a chyfathrebu yn y dyfodol, sef yn gyntaf, gwella hygyrchedd at swyddi a gwasanaethau, ac yn ail, cyflawni newidiadau mewn ymddygiad sy'n gysylltiedig â theithio mewn ymateb i effeithiau newid hinsawdd. Mae'r prif aneddiadau, canolfannau a chlystyrau fel y'u dengys yn map Ardal Cynllun Gofodol Canol Cymru (Ffigwr A.1) fel a ganlyn:

- **Aberystwyth**, a adnabuwyd fel prif anheddiad sy'n gyson â'i rôl fel canolfan strategol i Ganol Cymru, a'i arwyddocâd cenedlaethol i Gymru, gan ffurfio clwstwr gydag Aberaeron;
- Clwstwr **Bannau Brycheiniog**;
- **Caerfyrddin**, a adnabuwyd fel prif anheddiad a chanddi rôl strategol mewn tair Ardal Cynllun Gofodol;
- Clwstwr **Llandrindod**;
- Clwstwr **Meirionnydd Wledig a Chonwy**;
- Clwstwr **Dyffryn Hafren**, gan adnabod y **Drenewydd** fel prif anheddiad; a
- Clwstwr **Dyffryn Teifi**.





**Ffigwr A1: Map Canol Cymru Cynllun Gofodol Cymru**

Mae **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 7, Gorffennaf 2014)** yng nghyswllt trafndiaeth, yn anelu at ymestyn y dewis mewn trafndiaeth a sicrhau hygyrchedd mewn modd sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy ac yn helpu i fynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd trwy: *'annog sefydlu system drafnidiaeth fwy effeithiol ac effeithlon, gyda mwy o ddefnydd ar ddulliau mwy cynaliadwy a iach o deithio, a chan leihau cymaint â phosibl ar yr angen i deithio. Gwneir hyn trwy integreiddio.'* Cefnogir hierarchaeth drafnidiaeth mewn perthynas â datblygiadau newydd hefyd er mwyn hyrwyddo datblygiadau hygyrch trwy ddulliau cynaliadwy.

**Mae'r Strategaeth Newid Hinsawdd i Gymru a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu (2010)** yn nodi lle bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu i leihau'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir gan Gymru ac i baratoi am effeithiau newid hinsawdd, ac mae'n egwyddor allweddol ym mholisi Llywodraeth Cymru.

Un o dargedau allweddol Llywodraeth Cymru yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o 3% y flwyddyn o 2011 ymlaen mewn meysydd sydd wedi'u datganoli (sy'n cynnwys trafndiaeth). Yn fwy penodol, bydd camau gweithredu nawr ac yn y dyfodol yn canolbwyntio ar leihau allyriadau o ganlyniad i drafnidiaeth o rhwng 5.21 a 5.78 MtCO<sub>2e</sub> erbyn 2020 yn erbyn gwaelodlin o 7.14 MtCO<sub>2e</sub>.

Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu yn cynnwys nifer o 'gamau gweithredu' ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith. Cam Gweithredu 10 yw *"cymorth i ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd wrth ddatblygu ac adfywio seilwaith cynaliadwy."* O fewn hyn, bydd *"yr holl waith datblygu eiddo, adfywio a seilwaith a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgorffori mesurau ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd fel rhan o'i ddull datblygu cynaliadwy."* Cam Gweithredu 15 yw *"Adolygu gallu'r seilwaith trafndiaeth i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a datblygu rhaglen i fynd i'r afael â'r risgiau."* Dau o'r deilliannau disgwylidig yw *"gwell dealltwriaeth o'r perygl i rwydwaith ffyrdd Cymru yn sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd"* a *"strategaeth ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer trafndiaeth – gweledigaeth o sut mae angen i'n rhwydweithiau trafndiaeth newid er mwyn addasu i ganlyniadau'r newid yn yr hinsawdd."*

**Y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (2012)** yw cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a swyddi er mwyn sicrhau bod ei fuddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r buddion gorau posib i Gymru. Mae blaenoriaethau buddsoddi lefel uchel Llywodraeth Cymru wedi'u nodi fel a ganlyn:

- Gwella cysylltiadau trafniadaeth, yn enwedig cysylltiadau trafniadaeth Dwyrain – Gorllewin yng ngogledd a de Cymru;
- Gwella rhwydweithiau telegyfathrebu a sicrhau bod gan bob rhan o Gymru fynediad at gyfleusterau band llydan digonol ar gyfer eu hanghenion economaidd; a
- Chefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru.

O ran buddsoddi mewn trafniadaeth, y nod yw sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd cyfredol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn gweithredu'n fwy effeithlon trwy:

- Flaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cyfrannu at dwf economaidd – gan fynd i'r afael â thagfeydd trefol a gwella mynediad i ardaloedd allweddol, a thrwy wella capasiti a dibynadwyedd llwybrau allweddol rhwng y dwyrain a'r gorllewin; a
- Arddel trefn fwy hyblyg o ddatblygu datrysiadau i broblemau sylfaenol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Fframwaith Adfywio Newydd – Liefydd Llewyrchus Llawn Addewid** yn 2013. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw y dylai pawb yng Nghymru *“fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da.”* Mae'r fframwaith yn ceisio cael y gorau o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cyllid prif-ffrwd megis iechyd ac addysg.

Mae deilliannau cenedlaethol wedi'u gosod ochr yn ochr ag amcanion y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, ac maent yn cynnwys: 'cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda a gefnogir gan gysylltiadau cludiant a band llydan' ac 'amgylchedd leol gynaliadwy o ansawdd uchel.' Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi i adfywio yn cynnwys canol trefi, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau'n Gyntaf. Er nad oes Clystyrau Cymunedau'n Gyntaf yng nghanolbarth Cymru, ceir wardiau sy'n destun amddifadedd, ac mae rhannau helaeth o Ganolbarth Cymru yn dioddef o fynediad gwael iawn at wasanaethau.

Lansiwyd **Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013 – 2023** gyntaf gan Lywodraeth Cymru yn 2003 i roi sylw i faterion a dyheadau pobl sy'n 50 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Nod y strategaeth hon yw gwella ansawdd bywyd pobl hŷn mewn ffyrdd sy'n mynd y tu hwnt i'r agenda iechyd a gofal cymdeithasol draddodiadol. Y prif ddeilliannau a geisir sy'n berthnasol i'r Cynllun Trafniadaeth Lleol yw:

- **Cyfranogiad cymdeithasol** – Mae pobl hŷn yn mwynhau gwell ansawdd bywyd, yn byw bywydau cymdeithasol llawn (os dymunir hynny), ac mae unigedd ac ynysu cymdeithasol diangen yn cael eu lleihau i'r eithaf.
- **Dysgu a gweithgareddau** – Mae pobl hŷn yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o ddysgu gydol oes a gweithgareddau cymdeithasol priodol eraill; a
- **Byw yn y gymuned** – Gall pobl hŷn gymryd rhan a chyfrannu yn eu cymunedau a chael gafael ar wasanaethau ac amwynderau; a
- **Trafniadaeth** – Gall pobl hŷn ddefnyddio trafniadaeth fforddiadwy a phriodol sy'n eu helpu i chwarae rhan lawn mewn bywyd teuluol, cymdeithasol a chymunedol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Cynllun Iechyd Gwledig – Gwella'r Dull o Gyflenwi Gwasanaethau Iechyd Cymru** yn 2009. Nod y cynllun yw *“canolbwyntio ar iechyd pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig – eu lles, eu gofal iechyd a'u hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol fel y medrant fyw bywydau hapus a bodlon mor annibynnol â phosibl.”*

Ni ellir ystyried iechyd ardaloedd gwledig ar wahân i faterion cymdeithasol, economaidd, trafniadaeth, tai a gofal cymdeithasol, ac mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am gynllunio gwledig a darparu a chynllunio Cynllun Trafniadaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru - Atodiad A -

gwasanaethau mewn modd integredig. Mae'r materion hanfodol a nodir yn y gwaith hwn yn ymwneud â mynediad, integreiddiad a chydlynu ac ymgysylltu â chymunedau. Nid yw'r materion hyn yn rhai sy'n unigryw i ardaloedd gwledig yn unig, ond cânt eu heffeithio'n fawr gan amodau dydd i ddydd bywyd gwledig.

Mae themâu allweddol y cynllun yn cynnwys:

- Bydd angen atebion mwy creadigol a hyblyg i sicrhau bod anghenion y boblogaeth wledig yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf priodol; a
- Mae trafndiaeth yn chwarae rhan hanfodol mewn iechyd gwledig. Mae'n bwysig bod y cynlluniau ar gyfer gwasanaethau iechyd gwledig yn cael eu rhannu â'r Consortiwm cyn gynted â phosibl er mwyn nodi materion trafndiaeth a'u datrys cyn gynted ag y bo modd.

Diben **Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru (2008)** gan Lywodraeth Cymru yw adnabod ffordd glir ymlaen ar gyfer datblygu twristiaeth arfordirol, sy'n gwireddu ac yn adeiladu ar botensial economaidd morlin Cymru, ond ar yr un pryd yn parchu ansawdd ei amgylchedd ac yn adnabod pwysigrwydd cyflawni buddion cymunedol.

Un o'r 'heriau allweddol' a nodir yn y strategaeth yw 'mynediad'. Mae'r strategaeth yn disgrifio, er bod car preifat yn debygol o barhau i fod yn brif ddull teithio ar gyfer gwyliau aros ac ymweld am y dydd, mai'r her yw datblygu ffurfiau arloesol o gludiant cyhoeddus, i symud pobl o amgylch atyniadau lleol ac i'w gwneud yn haws i ymwelwyr gerdded a beicio o amgylch cyrchfannau.

## Cynlluniau Datblygu Lleol

Ar y lefel lleol mae polisiâu sy'n ymwneud â mynediad a thrafnidiaeth wedi'u gosod mewn dogfennau polisi cynllunio defnydd tir. Mae'r saith awdurdod cynllunio oddi mewn i ardal y CTLI ar y Cyd ar wahanol gamau o ddatblygu eu cynlluniau. Yn rhai achosion, y cynllun datblygu cyfredol ar gyfer yr ardal yw'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU), hyd nes y caiff y CDLI ei fabwysiadu:


- **Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd** – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Drafft – Hoff Strategaeth, Mehefin 2013 (dyddiad mabwysiadu dangosol, Ebrill 2016);
- **Cyngor Sir Ceredigion**, Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, mabwysiadwyd fis Ebrill 2013;
- **Cyngor Sir Powys**, Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011 – 2026 Drafft Adneuo, Gorffennaf 2014;
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**, Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007 – 2022, mabwysiadwyd 13 Gorffennaf 2011;
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**, Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007 – 2022, mabwysiadwyd 17 Rhagfyr 2013.

Wrth ystyried y cynlluniau datblygu unedol a lleol ar gyfer yr ardaloedd lleol, bydd hi'n bwysig rhoi ystyriaeth i'w strategaethau defnydd tir cyffredinol, er mwyn sefydlu ym mhle y bydd datblygiadau'n cael eu targedu dros gyfnod y CTLI. Mae Tabl A.3 yn crynhoi'r strategaethau gofodol ar gyfer y chwe awdurdod cynllunio.

### Atodiad A.3: Crynodeb o Strategaethau Gofodol Cynlluniau Datblygu Lleol/ Cynlluniau Datblygu Unedol

Cynllun	Strategaeth Ofodol
Strategaeth a Ffafir CDLI Ar y Cyd Drafft Ynys Môn a Gwynedd	Mae'r opsiwn a ffafir ar gyfer y strategaeth ofodol yn ceisio sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod y mwyafrif (55%) o ddatblygiadau preswyl yn cael eu lleoli oddi mewn neu gerllaw'r Ganolfan Isranbarthol (Bangor) a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol (Môn – Amlwch, Caergybi, Llangefni; Gwynedd – Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli) gan eu bod yn darparu'r ystod orau o wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.  Mae'r Strategaeth yn cydnabod rôl gyflenwol y Canolfannau Gwasanaeth Lleol, sy'n darparu ar gyfer

Cynllun	Strategaeth Ofodol
	<p>anghenion gwasanaeth hanfodol eu poblogaeth eu hunain a dalgylchoedd gwledig cyfagos, ynghyd â rhywfaint o gyfleoedd cyflogaeth a manwerthu. Mae ganddynt raddfa dda o hygyrchedd trwy gludiant cyhoeddus i'r Canolfannau rheng uwch. Yn ystod cyfnod y Cynllun, bydd y twf mewn tai yn cael ei gyfeirio i dir o fewn ac ar ymylon y Canolfannau Gwasanaeth Lleol hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <p><b>Gwynedd:</b> Abermaw, Abersoch, Bethesda, Criccieth, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn</p> <p>Mae'r opsiwn a ffafrir yn cydnabod hefyd y dylai Canolfannau llai (h.y. y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig) a Phentrefi, os ydynt am aros yn gynaliadwy, gael y cyfle lle byddo'n briodol i dderbyn datblygiad newydd. Ar y cam hwn ystyrir y gall rhai o'r Prif Bentrei hyn dderbyn peth o'r twf a fyddai fel arfer yn cael eu gyfeirio at Ganolfan uwch yn yr hierarchaeth. Mae'n bwysig bod eu rôl bresennol, lefel y cyfleusterau a'r gwasanaethau yn cael eu gwarchod lle bynnag y bo modd. Yn gyferbyniol i hyn, oherwydd naill ai'r lleoliad neu lefel cymharol isel o wasanaethau allweddol, ystyrir bod cynlluniau llai yn fwy addas yn y Pentrefi mwy Anghysbell.</p>
<p>Cyngor Sir Ceredigion, Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, mabwysiadwyd fis Ebrill 2013;</p>	<p>Bydd y Strategaeth yn gwella cynaliadwyedd y Sir, gan gynnwys diogelu a gwella amgylchedd ac adnoddau'r Sir ac yn sicrhau drwy newid y sicrhau bod y Sir yn fwy gwydn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.</p> <p>Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni datblygiadau cynaliadwy, bydd y Strategaeth yn atgyfnerthu rhwydwaith o gymunedau mewn aneddiadau trefol a gwledig ac yn atgyfnerthu'r iaith Gymraeg drwy ddefnyddio twf wedi'i dargedu.</p> <p>Felly, bydd twf wedi'i ganolbwyntio yn y Canolfannau Gwasanaeth (Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Chanolfannau Gwasanaeth Gwledig), tra'n cydnabod y bydd peth cyfle ar ôl i leoliadau eraill ar wahân i'r Canolfannau hyn.</p> <p>Mae'r Strategaeth yn croesawu newid ac yn darparu ar gyfer twf economaidd a thwf mewn tai a ragwelir. Cynnwys hyn ddarpariaeth tai fforddiadwy ac ystod eang o anghenion tai.</p> <p>O ran y twf mewn tai a ragwelir, cyflawnir hyn drwy roi cyfleoedd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ O leiaf 51% o'r twf mewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol (CGT);</li> <li>▪ 24% o'r twf hwn mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig (CGG); ac</li> <li>▪ Uchafswm o 25% o'r twf hwn (neu ddim mwy na 1522 uned) mewn aneddiadau a lleoliadau eraill heblaw Canolfannau Gwasanaeth (yn fwyaf arbennig yn yr Aneddiadau Cysylltiedig).</li> </ul>



Cyngor Sir Powys, Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011 – 2026 Drafft Adneuo, Gorffennaf 2014;

Mae hierarchiaid aneddiadau'r CDLI yn cynnwys:

- **Trefi** – Llanfair ym Muallt (gan gynnwys Llanelwedd), Trefyclo, Llandrindod, Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanidloes, Llanwrtyd, Machynlleth, Trefynwy, y Drenewydd, Llanandras, Rhoadr, y Trallwng, Ystradgynlais, y Gelli Gandryll (BBNP).
- Pentrefi Mawr
- Pentrefi Bach
- Aneddiadau Gwledig
- Cefn Gwlad Agored

Gwelir y trefi fel y prif leoliadau ar gyfer lleoli tai (marchnad agored a fforddiadwy), tir cyflogaeth, unrhyw dwf manwerthu (e.e. archfarchnadoedd), gwasanaethau cyhoeddus a datblygiadau sy'n cynhyrchu nifer fawr o siwrneiau. Cynllunnir twf tai yn gymesur â maint a lefel y cyfleusterau ym mhob tref er fod capasiti'r trefi i gynnal twf yn amrywio yn ôl y cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau'r isadeiledd.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007 – 2022, mabwysiadwyd 13 Gorffennaf 2011;

Gan ystyried dynodid y Parc Cenedlaethol, mae'n bwysig bod tirwedd ansawdd uchel y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu. Anela'r Cynllun Datblygu Lleol at fodloni anghenion cymunedau lleol o fewn capasiti amgylcheddol y Parc. Bydd hyn angen ystyriaeth ofalus y ffactorau sy'n berthnasol i newid (yn briodol yng nghyd-destun y Parc Cenedlaethol a'i 'Rinweddau Arbennig', i ddarparu cartrefi fforddiadwy, datblygiad economaidd a gwneud cymunedau'n fwy hunangynhaliol) a chyfyngiadau (i ddiogelu'r amgylchedd). Mae'n bwysig ystyried capasiti pob anheddiad i allu cynnwys twf a'u gallu i dderbyn gwahanol raddau o ddatblygiad. Mae graddau'r newid yn Eryri angen ystyried dylanwad aneddiadau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae aneddiadau megis Bangor, Caernarfon, Conwy, Llandudno, Llanrwst, Machynlleth, Blaenau Ffestiniog, Tywyn, Abermaw a Phorthmadog oll ar gyrion Eryri ac yn fwy addas ar gyfer cyflogaeth ar raddfa weddol fawr ynghyd â thwf tai. Byddai hyn yn adlewyrchu rôl a chylch dylanwad y trefi hyn a byddai o fewn eu hamgylchedd unigol a'u capasiti diwylliannol.

Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc

Datblygwyd y Strategaeth Ofodol drwy cymhwyso'r Dull Capasiti Amgylcheddol wrth ystyried graddfa a dosbarthiad datblygiad yn y dyfodol. Wrth sefydlu'r Strategaeth Ofodol, mae'r Parc Cenedlaethol wedi cymryd arweiniad gan Weledigaeth Canol Cymru fel y'i sefydlwyd gan Gynllun Gofodol Cymru. Mae'r

Cynllun	Strategaeth Ofodol
Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007- 2022.Mabwysiad wyd 17 Rhagfyr, 2013	weledigaeth yn hyrwyddo modelau deinamig o ddatblygiad gwledig cynaliadwy, sy'n gallu gwrthsefyll heriau ac yn agored i gyfleoedd newid hinsawdd tra ar yr un pryd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal a gwella hynodrwydd lleol.  Cyflawnir dosbarthiad cynaliadwy y twf drwy ddefnyddio'r polisiau manwl sy'n berthnasol i bob lefel o'r Hierarchaeth Aneddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>Anheddiad Allweddol Primaidd Lefel1 : Aberhonddu</li> <li>Aneddiadau Allweddol Lefel 2: Talgarth/Crughywel/ y Gelli Gandryll/ Pontsenni a Defynnog</li> <li>Aneddiadau Lefel 3</li> <li>Aneddiadau Twf Cyfyngedig Lefel 4</li> <li>Cefn Gwlad Lefel 5</li> </ul>

## Cynlluniau Integredig Sengl Awdurdodau Lleol

Rhoddodd Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i hyrwyddo lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eu cymunedau. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi cynllun tymor hir a elwir y Strategaeth Gymunedol. Mae canllaw Llywodraeth Cymru o ran partneriaethau a chynllunio integredig, wedi arwain at gyfuno'r cyn gynlluniau statudol i Gynlluniau Integredig Sengl.

Mae'r Cynlluniau Integredig Sengl wedi cael eu cynhyrchu mewn partneriaeth agos ag ystod o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, cymunedol, gwirfoddol a phreifat. Mae pob dogfen yn dilyn ffurf debyg, yn diffinio nifer o themâu a chmau gweithredu allweddol, er mwyn cyflawni gweledigaeth y strategaeth. Mae'r strategaethau/cynlluniau wedi cael eu hadolygu ac mae crynodeb ohonynt yn Nhabl A.4.

**Tabl A.4: Crynodeb o Weledigaeth a Themâu Cynllun Integredig Sengl**

Y Ddogfen a'r Weledigaeth	Deilliannau/ Gweithredu
<p><b>Ceredigion i Bawb – Cynllun Integredig Sengl Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion 2013 - 2017</b></p> <p>“Mae pobl Ceredigion yn falch o berthyn i gymuned sy'n ddwyieithog, yn gynaliadwy, yn iach, yn ffyniannus ac yn ddiogel”</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Cefnogi Teuluoedd:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae teuluoedd yng Ngheredigion â'r cyfle i ffynnu a chyflawni eu potensial</li> </ul> </li> <li><b>Yr Economi a Lle:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pobl Ceredigion â'r sgiliau a'r gefnogaeth i sicrhau cyflogaeth</li> <li>Mae cymunedau Ceredigion yn wydn ac yn gwerthfawrogi eu hamgylcheddau naturiol</li> </ul> </li> <li><b>Byw yn annibynnol:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pobl Ceredigion yn byw mewn cartrefi fforddiadwy a chymunedau diogel</li> <li>Mae pobl Ceredigion yn gallu byw bywydau bodlon.</li> </ul> </li> </ul>

Y Ddogfen a'r Weledigaeth	Deilliannau/ Gweithredu
<p><b>Cryfhau Cymunedau ym Môn a Gwynedd - Cynllun Integredig Sengl 2013 - 2017</b></p> <p>“Gweithio gyda’n gilydd i gryfhau cymunedau Môn a Gwynedd. Yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wneud Môn a Gwynedd yn lefydd iach, diogel a llewyrchus i fyw a gweithio ynddynt.”</p>	<p><b>Cymunedau Llewyrchus</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Pobl yn derbyn cefnogaeth effeithiol er mwyn cyflawni eu potensial</li> <li>▪ Cymunedau yn gweithio gyda'i gilydd yn gydlynol i gefnogi unigolion sydd mewn angen</li> <li>▪ Pobl â sgiliau perthnasol i sicrhau cyflogaeth</li> <li>▪ Pobl sydd mewn angen yn ariannol yn derbyn cymorth a chynghor da</li> <li>▪ Buddiannau'r cysyniad o Ynys Ynni yn cael eu huchafu i bobl leol</li> <li>▪ Gall pobl gael mynediad at dai fforddiadwy</li> <li>▪ Yr iaith Gymraeg yn ffynnu</li> <li>▪ Anogir twf busnesau lleol a'r diwydiant twristiaeth</li> </ul> <p><b>Cymunedau Iach</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Pobl yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn iach ac yn egnïol</li> <li>▪ Cymunedau yn fwy annibynnol ac yn gallu gofalu am eu lles eu hunain</li> <li>▪ Llai o bobl yn ysmegu</li> <li>▪ Mwy o bobl â phwysau iach</li> <li>▪ Plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth gynnar ac ymyraethau i fodloni eu hanghenion</li> <li>▪ Oedolion yn byw yn annibynnol o fewn eu cymunedau</li> <li>▪ Plant a phobl ifanc â mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden a chwaraeon</li> </ul> <p><b>Cymunedau Diogel</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gall rhai sydd wedi dioddef trais yn y cartref fod yn hyderus y byddant yn derbyn cymorth ac ymateb priodol pan fyddant ei angen.</li> <li>▪ Mae Trais yn y Cartref yn derbyn sylw priodol yn ein cymunedau fel trosedd annerbyniol.</li> <li>▪ Cefnogaeth a gwasanaethau ar gael i bobl sy'n camddefnyddio alcohol ac / neu gyffuriau</li> <li>▪ Asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i leihau'r effaith a gaiff alcohol a chamddefnyddio sylweddau yn ein cymunedau</li> <li>▪ Asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb yn effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau</li> <li>▪ Diogelu plant a phobl ifanc sy'n fregus, neu sydd mewn angen neu sydd mewn risg.</li> </ul>

Y Ddogfen a'r Weledigaeth	Deilliannau/ Gweithredu
<p><b>Cynllun Newid Cyngor Sir Powys 2013 -2016</b></p> <p>“Mae gennym weledigaeth gref sy'n arwain popeth rydym yn ei wneud fel Cyngor. Ein hymrwymiad i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yw sicrhau gwasanaethau effeithiol ar gyfer Calon Werdd Cymru. Yr hyn a olygir wrth 'effeithiol' yw y bydd ein gwasanaethau yn gost effeithiol ac yn canolbwyntio ar y deilliannau craidd i breswylwyr, busnesau a chymunedau. Golyga 'calon werdd' ein bod eisiau cynnal cymunedau cynaliadwy a ffyniannus ar draws Powys.</p> <p>Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn ceisio cadw pobl ifanc yn y sir, cadw pobl hŷn yn actif ac annibynnol, cynnal darparu gwasanaethau yn lleol a gwneud y gorau o'n hasedau naturiol er mwyn denu mwy o fusnesau a thwristiaid i'r sir.</p> <p>Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rhaid i ni addasu a newid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Pobl yn byw mewn cymunedau cefnogol, sy'n rhannu ac yn hunan ddibynnol</li> <li>▪ Pobl yn erbyn budd o economi amrywiol ffyniannus</li> <li>▪ Pobl â'r sgiliau i ddilyn eu huchelgais</li> <li>▪ Teuluoedd yn ddiogel gyda llefydd gefnogol i fyw</li> <li>▪ Pobl yn iach ac annibynnol</li> <li>▪ Pobl yn byw mewn cartrefi fforddiadwy o ansawdd da</li> <li>▪ Pobl yn mwynhau amgylchedd glân, diogel a gwyrdd</li> <li>▪ Pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus</li> <li>▪ Cefnogi pobl i ddod allan o dlodi</li> <li>▪ Cânt fynediad hawdd at y gwasanaethau y maent eu hangen.</li> </ul>





# Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru

Atodiad B

Cyflwyniad yn y Gweithdy Budd-ddeiliaid